

Syniadaeth Wleidyddol Gwynfor Evans

Richard Wyn Jones, Mawrth 2000

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Efyrdiau Athronyddol, Efyrdiau Athronyddol Cyfrol LXIII (2000), tt. 44-63.

Heb os nac oni bai, mae Gwynfor Evans yn un o ffigyrau mawr gwleidyddiaeth Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Yn wir, ar sawl gwedd, mae'n debyg y gellir ei gyfrif ef fel y cenedlaetholwr gwleidyddol pwysicaf yng Nghymru'r cyfnod modern. Mae Saunders Lewis a Ron Davies, mewn ffyrdd tra gwahanol, ill dau yn cystadlu am yr un anrhydedd, ond tybiaf y byddai'r rhan fwyaf o sylwebyddion yn cytuno mai Gwynfor Evans piau hi. Mae'r achos o'i blaid yn eithriadol o gryf.

Bu'n Llywydd Plaid Cymru rhwng 1945 a 1981 - hynny yw, am 36 o flynyddoedd! - cyfnod sydd bron yn amhosibl ei ddirnad o gofio, ar ôl Harold Wilson, bod wythnos yn gyfnod hir mewn gwleidyddiaeth. Ond megis dechrau mynegi hyd a lled ei gamp wna'r ffigwr moel yna. Cofir mai Llywydd mewn enw yn unig (i bob pwrpas) oedd Abi Williams rhwng 1943 a 1945 ac mai Gwynfor Evans, fel is-lywydd, oedd yn ysgwyddo baich gweithredol y llywyddiaeth bryd hynny hefyd.¹ Felly teg yw dweud iddo arwain y Blaid am 38 o flynyddoedd. Chwaraeodd ran ganolog yn nghynadledau blynyddol Plaid Cymru² am gyfnod sy'n lledu dros ystod o drigain mlynedd. Yn 1937, ef a roddodd gynnig gerbron y gynhadledd yn y Bala yn galw am statws swyddogol i'r iaith Gymraeg; yn 1997, yn sgil y bleidlais ar ddatganoli, fe'i tywyswyd i'r llwyfan yn Aberystwyth i gyfarch, ac i gael ei gyfarch, gan y cynadledwyr emosiynol.

Ond cofier hefyd mai brau iawn oedd trefniadaeth y Blaid am gyfnodau pur helaeth yn ystod ei Lywyddiaeth, ac mai prin iawn, iawn, oedd ei haelodau a'i hadnoddau.³ Ar adegau, ymddangosai mai nid arwain y blaid yn unig wnâi Gwynfor Evans; yn hytrach, ef, 'Gwynfor', oedd y Blaid. Gweithiodd yn ddifflino drosti. Teithiodd Gymru benbaladr i annerch cyfarfodydd a mynychu pwyllgorau rif y gwllith. Rhydd ef ei hun amcangyfrif i'w gar

¹ Mae'n debyg i Abi Williams ymgymryd â'r llywyddiaeth yn 1943 fel 'stop gap' gan na theimlai Gwynfor Evans y gallai fynd i'r swydd tra bod siop ei dad yn y Barri yn dioddef ymosodiadau yn sgil safiad cyhoeddus ei fab fel cenedlaetholwr a heddychwyr yn erbyn y rhyfel. Gw. Gwynfor Evans, *Bywyd Cymro*, Gol. Manon Rhys, (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1982) t. 88; Pennar Davies, *Gwynfor Evans* (Abertawe: Christopher Davies, 1976), t. 29; Alan Butt Philip, *The Welsh Question: nationalism in Welsh Politics 1945-1970* (Caerdydd; Gwasg Prifysgol Cymru, 1975), t. 73f.

² Plaid Genedlaethol Cymru oedd enw swyddogol y blaid rhwng 1925 a 1945 cyn ei newid i Blaid Cymru. Yn 1998 fe'i newidiwyd drachefn i Blaid Cymru - The Party of Wales. Fodd bynnag, er mwyn hwylustod, byddaf yn defnyddio Plaid Cymru i gyfeirio at y blaid trwy gydol ei hanes.

'[g]locio deg ar hugain i bymtheg ar hugain o filoedd o filltiroedd yn gyson bob blwyddyn, yn bennaf er mwyn y Blaid.'⁴ Golyga hyn ei fod wedi gyrru rhywle ar draws miliwn a chwarter o filltiroedd 'dros Gymru!'⁵ Ni ellir llai na rhyfeddu at ei ymroddiad yn enwedig pan gofir bod ffyrdd Cymru'r 1950au a'r 1960au dipyn yn llai cyfleus nag yr ydynt heddiw, a bod ceir yn llai moethus o lawer. Nid ar chwarae bach yr oedd crwydro mor bell, yn enwedig o gofio bod Gwynfor Evans gan amlaf yn dychwelyd adref at ei deulu - ac at ei dai gwydr a'u tomatos - ar ôl ei gyfarfodydd fin nos. Ceir llawer o sôn am *garisma* Gwynfor Evans, ond efallai mai'r ffaith fwyaf sylfaenol a thrawiadol amdano, a'r man cychwyn ar gyfer unrhyw drafodaeth ynglyn â'i gyfraniad i'r mudiad cenedlaethol, yw ei *stamina*.

Tanlinellir hyn pan ystyrir mai Gwynfor Evans fu lladmerydd mwyaf toreithiog achos y mudiad cenedlaethol.⁶ Nid oes llyfryddiaeth gyflawn o'i waith yn bodoli ond yng nghefn y cyfieithiad o hunangofiant Gwynfor Evans, Bywyd Cymro, ceir llyfryddiaeth wedi ei pharatoi gan Meic Stephens a Beti Jones.⁷ Ynddi, nodir 16 llyfr a 50 o bamffledi. Yn ogystal, cyfrannodd benodau lawer i wahanol gyfrolau, heb sôn am erthyglau di-rif i bapurau, a chylchgronau, a chyfnodolion mawr a man.

Ac wrth gwrs, gwelwyd ei holl ymdrech - a'i aberth fawr ef a'i deulu - yn dwyn ffrwyth. Yng nghyfnod Gwynfor Evans fel Llywydd y daeth y blaid i'w phrifant. Ar 14 Orffennaf, 1966, cipiodd Gwynfor Evans sedd seneddol Caerfyrddin i Blaid Cymru mewn is-etholiad yn dilyn marwolaeth Megan Lloyd George. Yn ôl y sylwebyddion, dim ond Gwynfor a allasai fod wedi ennill y sedd honno: cyfuniad amheuthun o berson a chyddestun yn creu canlyniad ysgytwol. Yn sicr dyna oedd y teimlad oddi mewn i'r Blaid. Yn adroddiad blynyddol Plaid Cymru ar gyfer 1966, nododd yr Ysgrifennydd, Elwyn Roberts, fod canlyniad Caerfyrddin yn 'personal triumph' i Gwynfor Evans, ac i'w briodoli

³ Roedd y blynyddoedd yn union ar ôl i Gwynfor Evans ymgymryd â'r Llywyddiaeth yn arbennig o llwm. Fel y cydnebu ef ei hun, 'Digon dilewyrch i'r Blaid oedd y blynyddoedd yn union wedi'r rhyfel.' Gwynfor Evans, *Bywyd Cymro*, op. cit., t.135.

⁴ Evans, *Bywyd Cymro*, op. cit., t. 88.

⁵ Ceir hanes ambell i dro trwstan ar deithiau Gwynfor Evans yn *Bywyd Cymro*, op. cit. Gweler, er enghraifft, tt. 88-89 a 209-10.

⁶ Unwaith eto, mae'n debyg bod cystadleuaeth glos am yr anrhydedd hon. Wedi'r cwbl, yr oedd Saunders Lewis mor doreithiog nes i'r profiad o geisio cronico ei gynnyrch beri dryswch mawr i D. Tecwyn Lloyd wrth iddo geisio paratoi cofiant ohono (gweler D. Tecwyn Lloyd, *John Saunders Lewis. Cyfrol 1* (Dinbych: Gwasg Gee, 1988) tt. ??-?? - ni chwblhawyd yr ail gyfrol). Fodd bynnag, torri ei gwys ei hun yr oedd Saunders Lewis o ganol y 1940au ymlaen. Yn ieithwedd Llafur newydd, yr oedd Saunders Lewis *off message*, ac, o'r herwydd, ni ellir ei ystyried fel lladmerydd i fudiad yn yr un modd â Gwynfor Evans.

⁷ Gwynfor Evans, *For the Sake of Wales: The Memoirs of Gwynfor Evans*, Cyf. Meic Stephens gyda Rhagair gan Dafydd Elis Thomas (Cymru: Welsh Academic Press, 1996), tt. 243-44.

in large measure to his personality, ability, and sincerity; his vision, his tireless service, his courageous leadership, his undaunted perseverance over long years, both in his home county and throughout Wales.⁸

Câi'r teimlad hwn ei ategu trwy rengoedd y Blaid, hyd yn oed ymysg y garfan gymharol niferus a oedd erbyn hynny yn amau strategaeth Gwynfor Evans fel arweinydd, ac yn ddrwgdybus o ddylanwad y cylch cyfrin o'i amgylch - 'Llys Llangadog' fel y'i gelwid yn fynych mewn cyfeiriad at gartref y Llywydd.⁹ Ar ôl Caerfyrddin yr oedd popeth yn ymddangos yn bosibl i genedlaetholwyr Cymreig - ac i'w gelynyon gwleidyddol. Hyd yn oed wedi i'r hyder (a'r braw!) cyntaf bylu, yr oedd hi'n amlwg na fyddai Plaid Cymru, nac yn wir wleidyddiaeth Cymru, byth yr un fath eto. Dyma i chi ddyfarniad y sylwebydd syber hwnnw Alan Butt Philip:

In a day, the political complexion of Wales was radically altered, its new face revealed. *Plaid Cymru* had established its credibility as an alternative party, and all the other political parties began to assess seriously its challenge and its objectives.¹⁰

Fel yr oedd Gwynfor Evans ei hun yn hoff o ddweud ar y pryd, gan ddwyn i gof eiriau Wordsworth yn sgil y Chwyldro Ffrengig, yr oedd Dydd Bastille 1966 megis toriad gwawr i genedlaetholwyr Cymreig.

Buddugoliaeth Caerfyrddin a wnaeth y canlyniadau yn is-etholiadau Gorllewin y Rhondda, Caerffili, a Merthyr Tudful, yn bosibl. Dichon hefyd mai Caerfyrddin a alluogodd Blaid Cymru i sefydlu ei hegemoni presennol yn y Gymru Gymraeg.¹¹ Ond dylid cofio yn ogystal mai yng nghyfnod llywyddiaeth Gwynfor Evans y sicraodd Plaid Cymru ei phleidlais uchaf erioed mewn etholiad cyffredinol Prydeinig - 175,016 yn 1970. Yn yr etholiad hwnnw hefyd y derbyniodd Plaid Cymru y nifer uchaf o bleidleisiau iddi eu derbyn mewn etholiad Prydeinig yn yr ardaloedd 'di-Gymraeg'.

⁸ Dyfynnir gan Butt Philip, *op. cit.*, t. 107

⁹ Ceir trafodaeth ar y tensiynau mewnol oddi mewn i Blaid Cymru cyn buddugoliaeth Caerfyrddin gan Alan Butt Philip. Is-deitl dadlennol y bennod sy'n trafod hynt a helynt y blaid yn y cyfnod rhwng 1959 a 1966 yw 'Drift and Fragmentation', *ibid.*, tt. 85-104. Am aelodaeth 'Llys Llangadog' gw. t. 155. Dylid nodi, fodd bynnag, bod Phil Williams yn dehongli'r un cyfnod mewn modd tra gwahanol yn ei bennod werthfawr, 'Plaid Cymru a'r Dyfodol', yn John Davies (Gol.), *Cymru'n Deffro: Hanes y Blaid_Genedlaethol* (Talybont: Y Lolfa, 1981), tt. 121-46. Serch hynny, mae ef hyd yn oed yn cydnabod y rhagflaenwyd llwyddiant Caerfyrddin gan 'gyfnod anodd a rhwystredig' (t. 123).

¹⁰ *ibid.*, t. 109.

¹¹ Mae rhai wedi dadlau - a Phleidyddwyr amlwg fel Phil Williams yn eu mysg - mai cam gwag oedd hi i Blaid Cymru gipio'r seddau gorllewinol, mwyaf 'Cymreigaidd', yn y 1970au a'r 1980au, cyn cipio seddau yn yr ardaloedd hynny lle mai Saesneg yw iaith y mwyafrif. Mae hon yn ddadl ffol i'm tyb i. Troedle seneddol Plaid Cymru yng Ngwynedd yn nechrau'r 80au a gadwodd y blaid yn llygaid y cyhoedd ac a roddodd gyfle iddi ddangos, dros gyfnod, nad nythle o 'eithafwyr' mohoni. Yr oedd tynnu colyn y cyhuddiadau o eithafiaeth ac o grancyddiaeth yn dalcen caled iawn o gofio bod Cenedlaetholdeb Cymreig wedi tynnu'n gwbl groes i'r hyn a ystyrir yn synnwyr cyffredin gwleidyddol yn

Ond er gwaetha'r ffaith fod ei ymroddiad rhyfeddol 'i'r achos' yn amlwg i unrhyw un sydd wedi ymddiddori yng ngwleidyddiaeth Cymru, ac yn wir yn destun edmygedd i'w wrthwynebwyr oddi allan i'r Blaid; er gwaetha'r ffaith fod arwyddocâd Caerfyddin yn amlwg i bawb, gan gynnwys Dug Caeredin hyd yn oed¹²; yn wir, er gwaethaf y ffaith fod Gwynfor Evans yn awdur toreithiog, ac ys dywed Kenneth O. Morgan, yn 'lucid expositor of his own credo,'¹³ pery, serch hynny, yn *enigma*. Mae cwestiynau seicolegol dyrys i'w hateb ynglyn â'r hyn sy'n gyrru dyn i ymroi gyda'r fath ddychwch ac ymroddiad i ymladd dros achos a oedd, am gyfnod hir, mor gwbl ddi-lewyrch, yn ymddangosiadol beth bynnag. Cyfyd cwestiynau gwleidyddol hefyd wrth geisio cloriannu hyd a lled ei union gyfraniad i Blaid Cymru. Beth, er enghraifft, oedd cyfraniad penodol Gwynfor Evans i syniadaeth wleidyddol Plaid Cymru? Pa mor llwyddiannus oedd ei holl ymdrechion fel propagandydd? A lwyddodd i daro tant, ac os do, hefo pwy? A sut y dylid pwysu a mesur ei lwyddiant fel strategydd gwleidyddol?

Rhan o'r broblem ynglyn â mynd i'r afael â Gwynfor Evans - a rhan o'r esboniad pam ei fod yn parhau'n dipyn o ddirgelwch - ydi cyn lleied sydd wedi ei ysgrifennu amdano. Nid oes trafodaeth fanwl a chynhwysfawr ar hynt a helynt Plaid Cymru yn ystod y blynyddoedd y bu Gwynfor Evans yn lywydd arni. Yn sicr, nid oes dim sy'n cyfateb i drafodaeth ddisglair D. Hywel Davies o ugain mlynedd cyntaf Plaid Genedlaethol Cymru.¹⁴ Mae cyfrol Alan Butt Philip, The Welsh Question, yn cynnig ychydig o arweiniad ar y blynyddoedd rhwng 1945 a 1970, a cheir trafodaeth ddefnyddiol gan John Davies o Plaid Cymru oddi ar 1960. Ond nid oes dim eto sy'n cynnig gor-olwg o flynyddoedd Gwynfor Evans fel llywydd. Yn ogystal, ychydig iawn o drafod a gafwyd ar Gwynfor Evans y person - llawer iawn llai nag y bu ar Saunders Lewis, er enghraifft.

Cyfrol Pennar Davies, Gwynfor Evans, yw'r unig un sy'n rhoi sylw penodol i'w fywyd a'i waith. Gwaetha'r modd, fe'i cyhoeddwyd yn 1976. O'r herwydd, nid yw'n trafod dau o ddigwyddiadau mwyaf pwysig, ac arwyddocaol o bosib, ei yrfa wleidyddol, sef ei

Nghymru'r cyfnod modern. Yn ei dro, yr oedd hyn yn gam angenrheidiol er mwyn sicrhau'r mwyafrif trwch-blewyn yn refferendwm 1997 - heb sôn am ganlyniad Plaid Cymru yn etholiadau'r Cynulliad yn 1999.

¹² Mae dyddiaduron Tony Benn yn cyfeirio at sgwrs a gafodd dros ginio â'r Dug ynglyn â chenedlaetholdeb yng Nghymru a'r Alban yn sgil canlyniadau rhyfeddol yr is-etholiadau. Nododd Dug Caeredin ei wrthwynebiad i or-ganoli, a'i gydymdeimlad gwresog â'r cenedlaetholwyr. Dyfynnir gan John Davies, *Plaid Cymru oddi ar 1960* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1996), t. 3.

¹³ Kenneth O. Morgan, 'From Eulogy to Elegy: Welsh Political Biography,' yn *Modern Wales: Politics, Places and People* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995) t. 472.

¹⁴ D. Hywel Davies, *The Welsh Nationalist Party 1925-45: A Call to Nationhood* (Caerdydd; Gwasg Prifysgol Cymru, 1983)

benderfyniad, yn 1978-79, i anwybyddu polisi swyddogol ei blaid ei hun ynglyn â'r refferendwm ar ddatganoli¹⁵, a'i fgygythiad, yn 1980, i ymprydio ar fater y sianel. Wrth reswm, ni ellir beio Pennar Davies am ysgrifennu ei lyfr pan y gwnaeth, ond yr hyn sydd yn lestar o safbwynt efrydwyr Cenedlaetholwyr Cymreig, yw mai broliant, yn wir, moliant o gyfrol ydyw, yn hytrach na thrafodaeth grwn a chytbwys. Ceir blas ar agwedd yr awdur, ac ar naws ei ymdriniaeth, ar dudalen gyntaf y bennod gyntaf pan ddywedir bod y gair 'sant' yn 'llawn addas i ddisgrifio Gwynfor Evans'.¹⁶ Efen arall o'r gyfrol sy'n peri rhwystredigaeth i'r darlennydd cyfoes yw mai ychydig iawn o ffeithiau newydd a ddatlennir ynddo ynglyn â gwleidyddiaeth fewnol y Blaid. Yn hytrach, bodlonir ar ail-bobi sylwadau Butt Philip, er y gellid disgwyl y byddai Pennar Davies, fel cyfaill gwleidyddol a phersonol mynwesol i Gwynfor Evans, yn meddu ar wybodaeth llawer iawn mwy trwyadl ynglyn â'r hyn oedd yn digwydd 'y tu ôl i'r llen'.¹⁷ Canlyniad hyn oll yw bod y gyfrol yn ganllaw ddigon simsan ac annigonol i'r sawl a fyn geisio mesur hyd a lled cyfraniad gwleidyddol Gwynfor Evans.

Y mae hunangofiant Gwynfor Evans, Bywyd Cymro, a gyhoeddwyd yn 1982, yn ffynhonnell werthfawr tu hwnt - nid yn unig, fel y gwelwn, oherwydd yr hyn a ddywedir yno, ond hefyd, oherwydd yr hyn na cheir ynddo. Ond eto, er gwaetha'r ffaith bod elfennau hunanfeirniadol yn ei drafodaeth, go brin y gellid disgwyl i unrhyw unigolyn, pa mor wylaidd bynnag y bo, wneud dim ond cyflwyno darlun go ffafriol ohono'i hun a'i weithredoedd mewn cyfrol o'r fath. Ac wrth gwrs, mae ego go gadarn yn gymhwyster angenrheidiol ar gyfer unrhyw wleidydd, heb sôn am un sydd wedi llwyddo i arwain plaid wleidyddol am ymron i bedwar degawd. Felly, unwaith eto, o safbwynt ysgolheigaidd, rhaid ymdrin â'r ffynhonnell hon â chryn ofal.

Cyfraniad Syniadaethol Gwynfor Evans i'r Mudiad Cenedlaethol

Yn nghyd-destun prinder affwysol (a gwaradwyddus) trafodaeth ddeallusol o gyfraniad Gwynfor Evans i genedlaetholdeb Cymreig, ac i fywyd Cymru yn gyffredinol, nid oes modd i'r ysgrif hon wneud dim mwy na chodi cwr y llen ar ambell agwedd ohono. Yn benodol, yr hyn a geisir ei wneud yma yw cychwyn ar y dasg o geisio mesur hyd a lled ei gyfraniad i ddatblygiad syniadaeth wleidyddol Plaid Cymru, trwy fwrw golwg ar berthynas syniadaethol Gwynfor Evans â Saunders Lewis. Mae hon yn berthynas allweddol yng nghyd-destun esblygiad syniadaethol y blaid. Rhyngddynt, bu Saunders Lewis a Gwynfor Evans yn arweinyddion swyddogol ar Blaid Cymru am gyfnod o bedwar deg a naw o

¹⁵ Gw. John Davies, *Plaid Cymru oddi ar 1960*, t. 8-9. Cymharer â Gwynfor Evans, *Bywyd Cymro*, tt. 300-05.

¹⁶ Pennar Davies, *op. cit.*, t. 9.

flynyddoedd. Os cyfrir hefyd y cyfnodau pan fu'r ddau'n llywio'r Blaid heb ddal y Llywyddiaeth - sef yn ystod cyfnodau llywyddol Lewis Valentine (1925-26) a J.E. Daniel (1939-43) yn achos 'Saunders'¹⁸, a chyfnod Abi Williams (1943-45) yn achos 'Gwynfor' - gellir dadlau eu bod wedi arwain y Blaid am bumdeg a chwech allan o'i 75 mlynedd o fodolaeth. Felly, mae deall graddau a natur y gwahaniaethau, a'r dilyniant, rhyngddynt yn allweddol. Heb ddealltwriaeth o'r fath, nid oes modd dechrau mesur cyfraniad penodol ac unigryw Gwynfor i syniadaeth y blaid y bu'n ei harwain cyhyd.

Er gwaethaf - neu efallai'n wir oherwydd - y diffyg trafodaeth fanwl a phenodol ar y pwnc, fe geir rhyw fath o gonsensws yn y llenyddiaeth ynglyn â rôl Gwynfor Evans yn hanes y Blaid. I fod yn amrwd, y gred gyffredinol yw bod Gwynfor Evans wedi 'achub' Plaid Cymru o afael Saunders Lewis a'i gylch ceidwadol ac adweithiol, gan ei gwneud yn fwy derbyniol i'r lliaws, a'i galluogi, ymhen hir a hwyr, i ennill cefnogaeth dorfol. Gellir amlhau dyfyniadau sy'n mynegi'r farn hon. Bodlonaf ar dri. Yn ôl Gwyn A. Williams, 'Plaid Cymru started its transformation into a social democratic party with the withdrawal of Saunders Lewis into a rather embittered isolation and the election of Gwynfor Evans as president in 1945'.¹⁹ Dadleua Butt Philip, '*Plaid Cymru* began to move away from the influence of Saunders Lewis' o dan lywyddiaeth Gwynfor Evans.²⁰ Tra bod KO Morgan yn ei dro yn gwrthgyferbynnu 'cultural commitment' Saunders Lewis hefo 'nonconformist populism' Gwynfor Evans.²¹

Y pwynt yr wyf am ei danlinellu yw yr hyn sydd ymhlyg yn y gwahanol ddehongliadau yma, sef bod Gwynfor Evans wedi cyflwyno newid nid yn unig i *ddelwedd* y Blaid, ond hefyd i *sylwedd* ei neges. Atgyfnerthir y canfyddiad yma gan ddwy ffenomen ddiddorol, dwy ffenomen cysylltiedig o bosib, sef, yn gyntaf, bod Saunders Lewis ei hun yn credu i Gwynfor Evans - a'r Blaid yng nghyfnod ei Lywyddiaeth - gefnu ar y syniadau creiddiol y ceisiodd osod yn sylfaen athronyddol iddi; ac yn ail, bod Gwynfor Evans wedi

¹⁷ Gw. *ibid.*, tt. 56-60.

¹⁸ Yr wyf eisoes wedi trafod y modd y mynnodd Saunders Lewis reolaeth dros raglen Plaid Cymru yn 1925 mewn ysgrif yn dwyn y teitl 'Saunders Lewis a'r Blaid Genedlaethol', yn Geraint H. Jenkins (Gol.), *Cof Cenedl. Cyfrol XIV* (Llandysul: Gomer, 1999), tt. 163-92. Ceir cyfeiriad dadlennol at rôl Saunders Lewis yn ystod cyfnod Llywyddiaeth JE Daniel mewn llythyr a ddanfonodd at OM Lloyd, Llanbedr y Cennin, Conwy, cyn i Daniel gydio yn yr awennau:

Ond peidiwch a phoeni amdanaf fel un hollol golledig. Nid wyf yn ymadael â'r Blaid. Mi gymeraf yn ganiataol mai Daniel a etholir yn llywydd. Yn awr mae ef yn un o'm ffrindiau pennaf i a golyga ei lywyddiaeth ef (1) *na bydd newid polisi a dulliau gweithio* (2) y gallaf i ei helpu ym mhob argyfwng os bydd angen penderfyniadau pwysig (3) fod y blaid yn cael siawns i ddysgu byw heb ddibynnu ar enw un dyn, a chaiff Jack Daniel hefyd brofiad o gyfrifoldeb fydd yn help mawr i'r dyfodol [pwyslais wedi ei ychwanegu].

Ffynhonnell: Casgliad y diweddar D. Tecwyn Lloyd

¹⁹ Gwyn A. Williams, *When was Wales?*, t. 290.

²⁰ Butt Philip, *op. cit.*, t. 74.

bod braidd yn gyndyn i gydnabod dylanwad syniadau Saunders Lewis ar ei syniadau ef. Mae'r ffenomen gyntaf yn ddigon hysbys. Yr wyf yn ymwybodol bod yr ail lawer yn fwy dadleuol. Manylaf yn awr ar y ddwy yn eu tro.

'Fe'm gwrthodwyd': Agwedd Saunders Lewis

Croesawodd Saunders Lewis ethol Gwynfor Evans i Lywyddiaeth y Blaid yn 1945. Yn Hydref 1944, dywedodd y 'dylai Gwynfor Evans gael ei gyfle i ddod yn Llywydd, ac aros cyhyd ag y gwneuthum i yn y swydd nes magu awdurdod yn y wlad.' Yn wir, fe aeth mor bell â dweud, 'Yr wyf yn argyhoeddiedig mai mantais sicr i'r Blaid fydd fy ymneilltuad i o fywyd cyhoeddus; ac fe ddyry hynny hefyd gyfle a rhyddid i Gwynfor.'²² Ond, ymhen amser, fe newidiodd ei gân. Chwerwodd tuag at Gwynfor a thuag at y Blaid.

Crisialwyd ei siom ynglyn â'r ffaith (dybiedig) bod Plaid Cymru wedi crwydro oddi ar y llwybr cul y lluniodd ef ar ei chyfer yn ei sylwadau adnabyddus mewn cyfweliad ag Aneurin Talfan Davies ym 1961:

Fe'm gwrthodwyd i gan bawb. Fe'm gwrthodwyd i ym mhob etholiad y ceisiais i fod yn ymgeisydd ynddo; mae pob un o'm syniadau - ddaru i mi ddechrau mewn cymdeithaseg, ac yng nghymdeithaseg cenedlaetholdeb - mae nhw i gyd wedi'u bwrw heibio.²³

Ond nid cwyno o ochr y llwyfan yn unig a wnaeth. Bu Saunders Lewis yn weithgar yn annog gwrthwynebwyr Gwynfor Evans oddi mewn i Blaid Cymru. Yr oedd y rhain yn griw digon brith ar un ystyr, gan mai ychydig iawn oedd yn gyffredin rhyngddynt - rhai yn sosialwyr di-Gymraeg a oedd am ganolbwyntio egnïon y Blaid ar y cymoedd, ac eraill am ganolbwyntio'n llwyr ar achub y Gymru Gymraeg wledig. Y ddolen gyswllt rhyngddynt oedd teimlad nad oedd dulliau cyfansoddiadol yn ddigonol, nad oedd ymlafnu i fedi pleidleisiau mewn etholiadau digon anfyfych yn ymateb digonol i argyfwng Cymru. Yr oedd Saunders Lewis a'i ffyddloniaid yntau'n rhannu'r un farn, a buont wrthi'n ddyfal yn procio a phryfocio, gan annog newid cyfeiriad sylfaenol i'r Blaid. Dyma, wrth gwrs, oedd ei fwriad wrth draddodi Tynged yr Iaith. Gwnaeth hyn yn gwbl eglur mewn llythyr a gyhoeddwyd yn Y Faner yn fuan ar ôl y ddarlith:

²¹ KO Morgan, *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales*, t. 397.

²² Dyfynnir gan Pennar Davies, *op. cit.*, t. 34.

²³ Saunders Lewis, 'Dylanwadau: Saunders Lewis mewn ymgom ag Aneurin Talfan Davies,' *Taliesin*, Cyf. 2 (Nadolig 1961), t. 13.

Ni soniais i air am gychwyn mudiad newydd yng Nghymru. Malltod yw'r mudiadau Cymreig a'u cynadleddau a'u penderfyniadau. Mi dybiais i fod yn boenus amlwg mai cenadwri i Blaid Cymru oedd fy narlith.²⁴

Ys dywed John Davies, 'Saunders Lewis...wnaeth fwy na neb, ddechrau'r chwedegau, i danseilio ffydd aelodau Plaid Cymru yn arweinyddiaeth Gwynfor Evans.'²⁵ Dichon y byddai wedi llwyddo yn ei fwriadau hefyd. O ystyried yr anfodlonrwydd oedd yn rhengoedd y blaid, a'r ymdeimlad o argyfwng a oedd yn meddiannu cymaint o genedlaetholwyr, mentraf awgrymu mai'r hyn a achubodd arweinyddiaeth Gwynfor Evans - a'r math o wleidyddiaeth a gynrychiolai oddi mewn i'r Blaid - oedd canlyniad is-etholiad Caerfyrddin. Yr oedd Caerfyrddin fel petai yn cadarnhau gwerth y strategaeth etholiadol/gyfansoddiadol.²⁶

Diddorol iawn yw nodi mai ychydig iawn o sôn a geir yn hunangofiant Gwynfor Evans am wrthwynebiad Saunders Lewis i'w arweinyddiaeth. Yn wir, ceir yr unig gyfeiriad sylweddol at anghydweld rhyngddynt yng nghyd-destun achos llys aelodau'r *Free Wales Army* yn 1969.²⁷ Dywed Gwynfor Evans i'r ffaith iddo wrthod cais Saunders Lewis i fynychu'r achos i gefnogi'r diffinyddion 'gyfrannu at y dieithrwch a fu rhyngom ers rhai blynyddoedd.'²⁸ Noder amwysedd cynnil y dyfyniad parthed pryd a sut yn union y dechreuodd y dieithrio.²⁹ Yr oedd Gwynfor Evans yn ymwybodol o deimladau Saunders Lewis ymhell cyn 1969!

Ymdriniaeth Gwynfor Evans o Saunders Lewis

Os bu Gwynfor Evans yn gyndyn o gydnabod rhaniadau rhyngddo ef a Saunders Lewis, mae lle i gredu iddo fod yr un mor gyndyn o gydnabod dylanwad syniadau Saunders Lewis arno. Gwelir hyn yn y modd braidd yn grintachlyd y cydnabu ei ddyled syniadaethol i Saunders Lewis yn ei hunangofiant. Ei dueddiad bob gafael yw tanbwysleisio dylanwad Saunders Lewis arno, tra'n gorbwysleisio (mewn cymhariaeth) rôl eraill. Felly, mae

²⁴ *Baner ac Amserau Cymru*, 22 Mawrth 1962

²⁵ John Davies, *Plaid Cymru oddi ar 1960*, t. 2.

²⁶ Un o'r rheini a ddylanwadwyd gan Gaerfyrddin oedd Dafydd Elis Thomas. Mewn cyfweiliad

â'r cylechgrawn *Tu Chwith* yn 1996, dywedodd mai yn sgil buddugoliaeth Gwynfor Evans yn Nghaerfyrddin y dewisodd ymroi i wleidyddiaeth Plaid Cymru yn hytrach na Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Yr oedd Caerfyrddin, meddai, wedi profi ei bod hi'n bosibl ennill etholiad yn enw'r Blaid. Gw. Dafydd Elis Thomas a Simon Brooks, 'Adeiladu'r wladwriaeth Gymreig', *Tu Chwith* Cyf. 5 (1996), tt. 24-38.

²⁷ Yn y cyfnod yma, cyfrannodd Saunders Lewis gerdd i *Tafod y Ddraig*, 'Englynion y Clywed', a gyfeiriai'n chwerwddychanol at wleidyddion y dydd, a Gwynfor Evans yn eu mysg.

²⁸ *Bywyd Cymro*, t. 275.

²⁹ Ceir yr un amwysedd yn y fersiwn Saesneg (ddiwygiedig) o'r hunangofiant. Gw. *For the Sake of Wales* t. 193 .

Gwynfor Evans yn dra pharod a nodweddiadol hael wrth gydnabod dylanwad D.J. Davies, George M. Ll. Davies, G.D.H. Cole, Mazzini, Masaryk, a llawer un arall ar ei feddwl. Mae cofiant Pennar Davies hefyd yn sôn am ddylanwad John Macmurray - y diwinydd sydd, yn ôl pob sôn, wedi dylanwadu ar Tony Blair a'r *Third Way* bondigrybwyll.³⁰ Ond prin iawn, iawn, yw'r cyfeiriadau at ddylanwad Saunders Lewis arno. Ceir dau gyfeiriad wrth bori yn ofalus yn Bywyd Cymro. Mae'r ddau yn awgrymog, ond yn fyr hyd at fod yn swta. Yn y cyntaf, sonia am ddylanwad dwy gyfrol D.J. Davies - Can Wales Afford Self-Government a Towards an Economic Democracy - ar ei syniadau. Yna dywed; 'Dylanwadodd y ddau lyfr hyn yn drwm arnaf, yn ail yn unig i Saunders Lewis'.³¹ Mewn man arall, cyfeiria ato ef ei hun fel 'Ewropead brwd', gan ychwanegu, 'ni allai neb y dylanwadodd Saunders Lewis cymaint arno fod yn wahanol'.³²

O'u tynnu o'u cyd-destun fel hyn, ymddengys y cyfeiriadau yn rhai digon hael. Ond y ffaith yw fod yn rhaid crybinio trwy 344 o dudalennau er mwyn canfod dwy hanner brawddeg! A bid siwr, nid yw'r cyfeiriadau hyn yn arddangos yr un haelioni ac eangfrydwch â gweddill y gyfrol. Yn hytrach, mae dyn yn synhwyro rhyw oerni annodweddiadol. Gwelir yr un ffenomen wrth i Gwynfor Evans drafod datblygiad Plaid Cymru. Os creffir ar ei fraslun o hanes Plaid Cymru yn Cof Cenedl, er enghraifft, yr hyn sy'n drawiadol unwaith eto yw mai cymharol fach yw'r sylw a roddir i Saunders Lewis.³³ Yn wir y tueddiad pob gafael yw tanbwysleisio ei rôl. Felly tra clywn, mewn hanner brawddeg arall, mai 'Saunders Lewis fu'r prif arweinydd o'r dechrau',³⁴ D.J. Davies sy'n cael y clod fel 'prif luniwr' polisïau economaidd y blaid ifanc.³⁵ Efallai'n wir mai dyna a fyddai wedi bod yn ddoeth; wedi'r cwbl, roedd D.J. Davies a'i wraig, Noëlle, ben-ac-ysgwydd uwchlaw gweddill aelodau'r Blaid o safbwynt dealltwriaeth economaidd, ac mae pamffled Davies, The Economics of Welsh Self-Government, yn parhau i ddarllen yn syfrdanol o gyfoes ymron i bedwar ugain mynedd ar ôl ei gyhoeddi gyntaf yn 1931. Ond y gwir amdani yw mai'r cysyniad o 'berchentyaeth' - cysyniad a grëwyd gan Saunders Lewis, trwy gymysgu syniadau economaidd y Dosrannwyr gyda lefain ei ddealltwriaeth (anghyflawn a chwbl unllygeidiog o ramantaidd) o economeg gymdeithasol oes aur y beirdd yn y bymthegfed ganrif - a ddefnyddiwyd gan Blaid Cymru i gyflwyno ei pholisi economaidd yn ystod ei

³⁰ Pennar Davies, op.cit., t. 31.

³¹ Bywyd Cymro, op.cit., t. 111.

³² Ibid., t. 266.

³³ Gwynfor Evans, 'Hanes Twf Plaid Cymru 1925-95', yn Geraint H. Jenkins (Gol.), Cof Cenedl. Cyfrol X (Llandysul: Gomer, 1995), tt. 153-83.

³⁴ Ibid., t. 156.

³⁵ Ibid.

gyfnod arweinyddol.³⁶ Yn ogystal, fel y dangosodd Emyr Wynn Williams, dim ond am gyfnod cymharol fyr y bu D.J. Davies yn chwarae rhan ganolog fel lluniwr polisi i'r Blaid. Yn hytrach canolbwyntiodd ef a'i briod eu hegnïon ar ymdrech i sefydlu Ysgol Werin ar y patrwm Llychlynnaudd ym mhlasdy Pant y Beiliau.³⁷ Saunders Lewis ei hun oedd awdur y pamffledi economaidd allweddol, The Case for a Welsh National Economic Development Council (1933), Local Authorities and Welsh Industries (1933), a TVA for Wales (1945). Er gwaeth neu er gwell, ef oedd prif awdur, a phrif ladmerydd, polisïau economaidd y Blaid ifanc.

Gwelir enghraifft drawiadol arall o'r duedd hon i or-bwysleisio cyfraniad eraill ar draul cyfraniad Saunders Lewis yn ymdriniaeth Gwynfor Evans o'r 'Tân yn Llyn' a'i ganlyniadau. Wrth adrodd hanes yr achos llys cyntaf gerbron Llys y Goron yng Nghaernarfon, dim ond at araith Lewis Valentine y cyfeiria!³⁸ Tra sylweddolwn fod gofod yn brin mewn unrhyw ysgrif gymharol fer sy'n ceisio cloriannu hanes mudiad gwleidyddol dros gyfnod o saithdeg o flynyddoedd, a bod yn rhaid dewis a dethol yn ofalus heb obeithio cyffwrdd â phopeth o bwys, y gwir amdani, serch hynny, yw bod trafod yr achos llys hwnnw heb drafod araith fawr Saunders Lewis yn rhoi camargraff llwyr o'r hyn a ystyrid ar y pryd, ac yn ddiweddarach, fel ei foment bwysicaf. Yn wir, pa bynnag ffon fesur a ddefnyddir, roedd araith Saunders Lewis yng Nghaernarfon yn un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes cynnar Plaid Cymru, ac yn drobwynt yn hanes cenedlaetholdeb Cymreig. Mae Gwynfor Evans yn ormod o hanesydd i beidio â sylweddoli hynny'n burion.³⁹

'Disgybl ar lawer cyfrif'

Yn wyneb siom amlwg Saunders Lewis ar y naill law, a thawedogrwydd Gwynfor Evans ar y llaw arall, mae'n hawdd iawn deall gafael y 'farn gyffredin', sy'n dal fod 'Gwynfor' wedi dyfnu'r Blaid o ddylanwad 'Saunders' gan weddnewid sylwedd ei neges yn y broses.

³⁶ Ceir trafodaeth olau ar ddylanwad meddylwyr megis Hillaire Belloc a'r Dosrannwyr ar Saunders Lewis gan D. Tecwyn Lloyd, op.cit., tt. 282-87.

³⁷ Emyr Wynn Williams, 'D.J. Davies - a Working Class Intellectual within Plaid Genedlaethol Cymru 1927-32', *Llafur*, Cyf. 4, Rhif 4 (1987)

³⁸ Gwynfor Evans, 'Hanes Twf Plaid Cymru 1925-95', op.cit., t. 158.

³⁹ Yn y cyd-destun yma, mae'n ddiddorol nodi bod un o ysgrifau cynharaf Gwynfor Evans i gynnwys trafodaeth o hanes blynyddoedd cynnar y Blaid yn cynnwys gwerthfawrogiad mwy crwn o gyfraniad Saunders Lewis:

Mr Saunders Lewis oedd Llywydd y Blaid o 1926 hyd 1939, ac arno ef y disgynnodd toreth y gwaith, nid o arwain o ddydd i ddydd yn unig, ond hefyd i esbonio polisi'r Blaid fel y datblygai. Os enynnodd ei erthyglau yn *Y Ddraig Goch* a'r *Faner* yn aml anghydweld anochel, eto ar y pryd mynasant sylw gelynyddion y Blaid yn ogystal â'i chyfeillion. Nid oes amheuaeth na fernir ei ysgrifau politicaidd yn ystod y blynyddoedd yma, ar bwys eu gwybodaeth a'u cysondeb a'u dwyster, ymysg y cyfraniadau mwyaf a wnaed erioed i'r meddwl gwleidyddol yng Nghymru. Ac o wladgarwyr mawr dwy ganrif, ym marn y lliaws, ef yw'r mwyaf.

Gwynfor Evans, 'Yr Ugeinfed Ganrif a Phlaid Cymru' yn *Seiliau Hanesyddol Cenedlaetholdeb Cymru* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1950), tt. 139-140.

Mae'n ddehongliad ymddangosiadol ddeniadol a chredadwy. Ysywaeth, mae'n gamarweiniol. Yn hytrach, mae cymhariaeth ofalus o *genedlaetholdeb* Saunders Lewis a Gwynfor Evans yn dadlennu tebygrwydd sylfaenol rhyfeddol ym mhrif elfennau eu syniadau. Y mae hyn yn cynnwys y modd y maent yn synio am y genedl, perthynas yr unigolyn a'r genedl, statws moesol y wladwriaeth, perthynas yr iaith Gymraeg a chenedligrwydd Cymreig, natur cenedlaetholdeb gwleidyddol Gymreig, ac yn y blaen. [Gweler y cymhariaethau yn Nhabl Un.] Tebyg hefyd oedd y nod cyfansoddiadol a osododd y ddau ar gyfer eu cenedlaetholdeb. Bu i'r ddau geisio gwahaniaethu rhwng rhyddid ac annibyniaeth, gan goleddu'r cyntaf a gwrthod yr ail.

>>>>**Dylid mewn-osod Tabl Un tua fan'ma**

Wrth reswm, gorchwyl anodd, os nad amhosibl, yw profi'n derfynol fod yna ddylanwad uniongyrchol, pan fo'r naill ochr a'r llall fel petant yn amharod i arddel neu ddathlu cysylltiad. Wedi'r cwbl, fe allai'r ffaith fod syniadau dau unigolyn yn debyg olygu'n syml eu bod yn tarddu o ffynhonnell gyffredin, yn hytrach na golygu bod un wedi dylanwadu ar y llall. Gall hefyd fod yna ddylanwad anuniongyrchol, gydag un unigolyn yn amsugno syniadau heb lawn sylweddoli eu tarddiad gwreiddiol ym meddwl person arall. Ond yn achos Saunders Lewis a Gwynfor Evans, credaf bod yna ddigon o dystiolaeth i allu dadlau yn ddigon di-betrus bod prif elfennau syniadaethol cenedlaetholdeb Gwynfor Evans i gyd wedi deillio o syniadaeth Saunders Lewis.

Nid oes amheuaeth, er enghraifft, mai Saunders Lewis - a Saunders Lewis yn unig - a oedd yn gyfrifol am y gwahaniaeth a dynnwyd yn ideoleg cenedlaetholdeb Cymreig rhwng annibyniaeth a rhyddid.⁴⁰ Yn ddiweddarach, bu Gwynfor Evans yn ladmerydd brwdfrydig i'r safbwynt hwnnw gydol ei yrfa wleidyddol.⁴¹ Ond yn ogystal â hynny, dangosodd Dafydd Glyn Jones, D. Tecwyn Lloyd a Grahame Davies, ill tri, gyfuniad mor unigryw - ac ar sawl ystyr, echreiddig - o ddylanwadau a ffurfiodd graidd syniadaeth genedlaethol Saunders Lewis.⁴² Yng ngoleuni hyn, mae'r ffaith bod Gwynfor Evans wedi arddel llawer o'r un syniadau fel pe bai'n gadarnhad terfynol mai o waith Saunders Lewis y tarddodd prif elfennau syniadaethol ei genedlaetholdeb.

⁴⁰ Gw. Richard Wyn Jones, 'Saunders Lewis a'r Blaid Genedlaethol', *op. cit.*, *passim*.

⁴¹ Fel un o blith myrdd o enghreifftiau posibl, gweler Gwynfor Evans, *Self-Government for Wales and a Common Market for the Nations of Britain* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1962), t. 7.

⁴² Gw. Dafydd Glyn Jones, 'His Politics' yn Alun R. Jones a Gwyn Thomas (Gol.), *Presenting Saunders Lewis* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1983), tt. 23-78, D. Tecwyn Lloyd, *op. cit.*, a Grahame Davies, *Sefyll yn y Bwlch*.

Os y derbynnir hyn, mae'r ddwy hanner brawddeg, a ddyfynwyd uchod o hunangofiant Gwynfor Evans, sy'n cydnabod dylanwad Saunders Lewis, er mor swta ac oeriadd yr ydynt, yn dra arwyddocaol. Os cânt eu blaendirio, fel yr awgryma'r dadansoddiad yma, yna rhaid troi'r 'farn gyffredin' ynglyn â'r dilyniant syniadaethol - neu'n fanwl, y diffyg dilyniant - rhwng cyfnodau arweinyddol y ddau ar ei phen. Yn hytrach na gweld Gwynfor Evans yn 'achub' Plaid Cymru o etifeddiaeth Saunders Lewis, neu yn wir yn 'gwrthod' yr etifeddiaeth honno, rhaid sylweddoli bod y berthynas syniadaethol rhwng y ddau yn llawer mwy cymhleth nag y myn y rhelyw o sylwebyddion. Yng nghyfrol diweddar R.M. Jones, *Ysbryd y Cwlwm*, ceir y darlun canlynol o'r berthynas honno:

Saunders Lewis a Gwynfor Evans yw'r ddau ffigur carismatig mewn cenedlaetholdeb gwleidyddol yn yr ugeinfed ganrif. Yr oedd y naill fel y llall yn ymroddedig. Ond gan yr ail y ceid y synnwyr trefnu a'r adnabyddiaeth lawnaf a mwyaf greddfol o bosibiliadau gwleidyddol Cymru. Yr ail hefyd oedd y mwyaf pragmatig. Ond tybiaf, yn gam neu'n gymwys, y bydd y dyfodol yn ystyried yr ail yn debycach i'r cyntaf nag a wnawn ni, a hyd yn oed yn ddisgybl iddo ar lawer cyfri.⁴³

I'm tyb i, mae'r awdur yn llygaid ei le.

Mae trosiad yr athro a'r disgybl yn hynod awgrymog wrth geisio olrhain y patrymau o ddilyniant ac o newid syniadaethol rhwng cyfnod arweinyddol Saunders Lewis a Gwynfor Evans. Oblegid, nid yw disgybl da yn bodloni ar ail-adrodd dysgeidiaeth yr athro yn unig. Yn hytrach, mae ef neu hi yn cymathu'r prif themâu i amgylchiadau gwahanol, ac, yn fynych, yn tynnu ar ddylanwadau eraill. Mae hon yn broses sydd, yn ei thro, yn newid y syniadau, neu yn rhoi arwyddocâd newydd iddynt.

Felly, gwelir craidd syniadau Saunders Lewis ynglyn â'r genedl a chenedlaetholdeb yn cael eu mabwysiadu gan Gwynfor Evans, ac yn cael eu symud ymlaen o fewn Plaid Cymru o gyfnod arweinyddol y naill i'r llall. Ond, yn raddol, gwelir dylanwadau eraill yn cael eu cymathu â'r gwaddol 'Saundersaidd'. Er enghraifft, daw Leopold Kohr a'i gondemniad dylanwadol o 'felltith mawrdra' i atgyfnerthu achos y Blaid.⁴⁴ Ond, yn fwy pwysig efallai,

Cymru a'r mudiad gwrth-fodern: Astudiaeth o waith R.S. Thomas, Saunders Lewis, T.S. Eliot, a Simone Weil (Caerdydd; Gwasg Prifysgol Cymru, 1999) tt. 58-96.

⁴³ R.M. Jones, *Ysbryd y Cwlwm: Delwedd y Genedl yn ein Llenyddiaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), t. 331.

⁴⁴ Leopold Kohr, *An Austrian looks at Welsh Nationalism* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1959). Wedi 1959 mae gwaith Gwynfor Evans wedi ei fritho â chyfeiriadau at ei syniadau.

gosodir y craidd syniadaethol oddi mewn i gyd-destun amgen, ac, o ganlyniad, fe'i mynegir mewn ffordd gwbl wahanol, ac ar sawl ystyr, rhoddir iddo arwyddocâd newydd.

Er na ellir ymdrin â hwy yn fanwl yn yr ysgrif hon, gellir awgrymu bodolaeth o leiaf dri dylanwad sylfaenol arall ar Gwynfor Evans sy'n newid y ffordd y cyflwyno'r neges ynglyn â chenedligrwydd Cymreig a 'ddysgodd' gan Saunders Lewis.

1. *Hanesyddiaeth*. Gellir nodi sawl elfen yn nehongliad Gwynfor Evans o hanes Cymru sy'n wahanol i'r darlun a geir gan Saunders Lewis.⁴⁵ Gellir cysylltu'r rhain yn eu tro â'u byd-olwg ac â'u safbwyntiau gwleidyddol.⁴⁶ Er enghraifft, gwelir pwyslais ar Geltigiaeth Cymru yn ysgrifau hanesyddol Gwynfor Evans. Yr oedd Saunders Lewis, mewn gwrthgyferbyniad, yn ddigon difriol o'r 'cwlwm Celtaidd'. Ond yn bwysicach o lawer, siawns nad oedd y ffaith fod Gwynfor Evans yn meddu adnabyddiaeth lawnach o 'bosibiliadau gwleidyddol Cymru' ynghlwm yn ei allu i ymglywed mwy â dyheadau radicalaidd y werin yn y canrifoedd ar ôl y Deddfau Uno. Yr oedd, pendefigaeth Saunders Lewis, a'i bortread o'r Deddfau Uno megis y cwmp o ryw ardd Eden, yn golygu na allai fyth ddadlau ag arddeliad - fel y gwnaeth Gwynfor Evans - mai cenedlaetholwyr cyfoes oedd gwir etifeddion y traddodiad radicaliadd, gwerinol, Cymreig.
2. *Diwinyddiaeth*. Ceir gwahaniaethau sylfaenol yn safbwyntiau diwinyddol Lewis ac Evans. Go brin fod yn rhaid manylu arnynt yma, gan i'r ddau chwarae rôl gyhoeddus mor amlwg, ac yn achos Saunders Lewis o leiaf, mor ddadleuol, fel lladmeryddion neges eu heglwysi. Ond yn nhermau eu perthynas bersonol a deallusol, nis gellir amau fod eu safbwyntiau diwinyddol gwahanol yn faen tramgwydd, hyd yn oed os yw Dafydd Glyn Jones yn gywir wrth ddadlau mai 'Pabydd ar gyfer Cymru ymneilltuol fu Saunders Lewis'.⁴⁷ Mae'n debyg mai heddychiaeth Gwynfor Evans - cynnyrch ei argyhoeddiad crefyddol dwfn - a greodd fwyaf o bellter rhyngddynt.⁴⁸ Bu'n achos tensiwn rhwng y ddau o'r flwyddyn 1938, pan roddodd Gwynfor Evans gynnig gerbron cynhadledd y Blaid yn Abertawe yn ei hymrwymo i ddulliau heddychlon, hyd at 1969 ac achos y FWA, a thu hwnt.

⁴⁵ Ceir ymdriniaeth lawnaf Gwynfor Evans o hanes Cymru yn *Aros Mae* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1971). Yn ogystal ceir sylwadau diddorol ar hanesyddiaeth yn *Bywyd Cymro*, *op. cit.*, 284-94. Ceir gorolwg o hanes Cymru (a'i arwyddocad) gan Saunders Lewis yn *Egwyddorion Cenedlaetholdeb* (Machynlleth: Evan Jones, 1926).

⁴⁶ Ni cheisiaf fynd i'r afael â'r cwestiwn hanesyddiaethol dyrys ai adlewyrchu byd olwg yr hanesydd a wna hanes, ynteu ei ffurfio (neu yn wir, gyfuniad dilechdaidd o'r ddau)?

⁴⁷ Dafydd Glyn Jones, 'Cyflwyniad' i Saunders Lewis, '*Sefwch gyda mi...*' (Llanrwst; Gwasg Carreg Gwalch, 2000) t. 9.

⁴⁸ Am ddatganiad o'i argyhoeddiad heddychol gweler Gwynfor Evans, *Cenedlaetholdeb Di-drais*, Cyf. D. Alun Lloyd (Abertawe: Gwasg John Penry/Cymdeithas y Cymod, 1973). Gw. hefyd y drafodaeth werthfawr yn Colin H. Williams, *Christian Witness and Non-violent Principles of Nationalism*.

3. *Democratiaeth Gymdeithasol*. Yn ystod y 1920au a'r 1930au, ceisiodd Saunders Lewis, gyda chymorth parod J.E. Daniel ac ambell un arall, gyflwyno cenedlaetholdeb fel ideoleg gyflawn ynddo'i hun. Gwelent genedlaetholdeb fel syniadaeth ag iddi'r gallu trosgynnol i oddiweddyd yr hollt ideolegol gonfensiynol rhwng de a chwith. Gellid dadlau, yn wir, mai dim ond gyda phenderfyniad cynhadledd y Blaid yn 1981 i dderbyn fod creu Cymru, wedi ei threfnu yn ôl egwyddorion 'sosialaeth gymunedol', yn un o amcanion sylfaenol y mudiad y daeth yr ymdrech i gyflwyno cenedlaetholdeb fel ideoleg gyflawn, hunangynhaliol, i ben yn derfynol. Bellach mae consensws ymysg sylwebyddion, ac, yn wir, ymysg trwch cenedlaetholwyr Cymreig, mai ideoleg *parasitig* yw cenedlaetholdeb. Hynny yw, nid yw bod yn genedlaetholwr yn gyfystyr â safle ar yr ystod 'dde-chwith', na chwaith â safle ar yr ystod sy'n ymestyn o syniadau cymdeithasol awdurdodus i safbwyntiau rhyddfrydol. Yn ddi-os, saif gwerthoedd cymdeithasol a daliadau gwleidyddol Gwynfor Evans gryn dipyn i'r chwith o'u cymharu â rhai Saunders Lewis. Yn wir, fel yr awgryma'r cyfeiriadau ffafriol at gyfundrefnau cymdeithasol Llychlynnaid, a fritha ysgrifau Gwynfor Evans, gellir ei weld fel democrat cymdeithasol yn nhraddodiad y gwledydd hynny.⁴⁹ Unwaith eto, golyga hyn bod y syniadau creiddiol (a 'Saundersaidd') ynglyn â chenedligrwydd, a'r cyflwr cyfansoddiadol gorau ar gyfer dyfodol Cymru, yn cael eu gosod mewn cyd-destun syniadaethol tra gwahanol.

Camp syniadaethol Gwynfor Evans oedd cysylltu a chymysgu'r syniadau parthed y genedl, a chenedligrwydd, a dyfodol cyfansoddiadol Cymru, a dderbyniodd gan Saunders Lewis - ei genedlaetholdeb, os y mynnir - hefo'r dylanwadau amgen yma. Pan gyfunwyd hyn â'i anian mwy plaid-wleidyddol, y canlyniad oedd bod cenedlaetholdeb Gwynfor Evans wedi ymddangos i lawer - gan gynnwys Saunders Lewis ei hun, fe ymddengys - fel aderyn tra gwahanol i genedlaetholdeb Saunders Lewis. Ond o ddychwelyd at sylwadau enwog Saunders Lewis ynglyn â'r modd y'i 'gwrthodwyd', er ei bod yn wir dweud bod Gwynfor Evans wedi gwrthod agweddau ar 'gymdeithaseg' Saunders Lewis, yr hyn a amlygwyd yn y drafodaeth hon yw bod elfennau canolog o'i genedlaetholdeb wedi parhau yn ganolog i weledigaeth gwleidyddol Gwynfor Evans, ac i weledigaeth Plaid Cymru o dan ei arweinyddiaeth. Gorwedd gwreiddioldeb a chyfraniad arbennig Gwynfor Evans yn y ffaith iddo osod y syniadau mewn cyd-destun gwahanol, a'u cyflwyno mewn modd a oedd yn llawer mwy cyson a chynneddf prif ffrwd syniadaeth wleidyddol Gymreig.

Heb 'fwrw heibio' digon?

⁴⁹ Fel un o blith myrdd o enghreifftiau posibl gweler Gwynfor Evans, *Pe bai Cymru'n rhydd* (Talybont: Y Lolfa, 1989).

O geisio cloriannu cyfraniad Gwynfor Evans i syniadaeth Plaid Cymru, cyfyd cwestiwn diddorol yng nghyd-destun parhad dylanwad themau 'Saundersaidd' yn syniadaeth 'Gwynfor' a'r Blaid. Yn ei drafodaeth lachar o wrth-foderniaeth Saunders Lewis, fe ddywed Grahame Davies:

Tueddir i weld Lewis yn gyffredinol yng Nghymru, felly, fel arch-genedlaetholwr ac arch-amddiffynnydd yr iaith, gyda'i elitiaeth a'r gweddill o'i syniadau llai poblogaidd yn rhyw fath o hynodrwydd ymylol, os ystyrir hwy o gwbl. Gobeithiaf fy mod wedi awgrymu, er i'r pethau hyn ymddangos yn ymylol erbyn hyn yn y ddelwedd gyffredin boblogaidd o Saunders Lewis, eu bod, mewn gwirionedd, yn rhan annatod o'r tueddiadau a'i gyrrodd i le blaenllaw ym mywyd y genedl.⁵⁰

Yr awgrym yw bod y farn gyffredin bellach wedi ysgaru cenedlaetholdeb Saunders Lewis o'r fframwaith gwrth-fodern ac adweithiol y magwyd hi ynddi. Yn sgil y drafodaeth flaenorol, gellid awgrymu mai gweithgarwch Gwynfor Evans, yn anad neb efallai, a lwyddodd i wneud hynny. Ond tybed, yn wir, a yw holl elfennau'r genedlaetholdeb sy'n weddill yn rhydd o waddol y fframwaith adweithiol? Ystyrir yn arbennig ymrwymiad Gwynfor Evans - ac yn wir, Plaid Cymru hyd heddiw - at y nod o ryddid, ac *nid* annibyniaeth.

Fel ag y nodwyd eisoes, nid oes amheuaeth mai Saunders Lewis a gyflwynodd y gwahaniaeth tybiedig hwn i ideoleg y Blaid. Ni ellir amau ychwaith ei fod yn codi'n uniongyrchol o'i wrth-foderniaeth.⁵¹ Deilliai o'i awydd i ymwrthod â'r wladwriaeth fodern a'i holl weithredoedd. I Saunders Lewis, wrth gwrs, nid oedd y datblygiadau blaengar a ddaeth law-yn-llaw â'r wladwriaeth fodern o bwys sylfaenol. Fel yn achos cymaint o adweithwyr, yr oedd yn amheus o'r cysyniadau a ddaeth i fri drwy chwyldroadau'r ail ganrif ar bymtheg megis sofraniaeth boblogaidd, (hynny yw, democratiaeth), a'i efail, dinasyddiaeth. Nid oedd y ffaith na cheid ystyr ymarferol, gyfansoddiadol, i 'rhyddid', ac nad oedd arddel 'rhyddid' felly, yn caniatáu i'w blaid ddatblygu cysyniad aeddfed o sofraniaeth a dinasyddiaeth Gymreig - rhannau hanfodol o arfogaeth mudiadau cenedlaethol sifig, modern - o unrhyw bwys yng nghyd-destun ei fframwaith ddeallusol ef. Ond wedi gosod y cyd-destun hwnnw o'r neilltu, fodd bynnag, roedd yn rhaid i'r Blaid ganfod ffordd arall o gyflwyno'r ymrwymiad at ryddid, yn hytrach nag at annibyniaeth. Ar y cyfan, gwnaed hyn trwy barhau â'r ystryw rethregol a ddechreuwyd ei harddel mor fuan ag y cychwynodd y Blaid geisio sôn am ba ffurff y gallai 'rhyddid' ei gymryd. Gan fod

⁵⁰ Gw. Grahame Davies, *op. cit.*, t. 90.

⁵¹ Gw. Richard Wyn Jones, *op. cit.*

'rhyddid' yn gyfansoddiadol ddi-ystyr, parhawyd i ymwrthod ag 'annibyniaeth', tra ar yr un pryd yn galw am sefydlu cyfundrefn wleidyddol y byddai pob cyfreithiwr rhyngwladol, pob gwladweinydd, ac, o ran hynny, pawb arall y tu allan i uchel-rengoedd y mudiad ei hun, yn ei alw'n statws annibynnol. Ond go brin bod hynny wedi galluogi'r Plaid i ddatblygu polisïau cyfansoddiadol credadwy, nac yn wir, arbenigedd yn y maes.

Tra bod Plaid Cymru yn blaid ymylol, a Chymru ynghlwm yn dynn wrth ffedog y wladwriaeth Brydeinig, doedd hynny o fawr bwys. Ond bellach, gyda sefydlu Cynulliad Cenedlaethol lle mae Plaid Cymru yn brif wrthblaid, a hynny ar sail 'setliad', sy'n golygu bod cwestiynau cyfansoddiadol yn brigo i'r wyneb yn sgil pob penderfyniad mawr a mân, gallai'r diffyg hwnnw brofi'n llyffethair mawr.⁵² Ynghanol yr holl gymwynasau a wnaeth Gwynfor Evans dros ei blaid, tybed felly ai anghymwynas oedd iddo beidio â 'bwrw heibio' etifeddiaeth syniadaethol Saunders Lewis yn fwy trylwyr?

Aros Mae

Mae corff yr ysgrif hon wedi craffu ar syniadaeth Gwynfor Evans a'i gyfraniad i ddatblygiad syniadaethol Plaid Cymru. Gwelwyd sut y cysylltodd ac y cymysgodd elfennau o syniadau un o'i ragflaenwyr fel Llywydd, Saunders Lewis, gyda dylanwadau gwleidyddol, diwinyddol, a hanesyddol eraill, i greu *synthesis* newydd. Ond wrth gwrs, dim ond codi cwr y llen ar un agwedd o'i gyfraniad i Blaid Cymru a wnaed yma. O geisio cloriannu cyfraniad cyffredinol Gwynfor Evans i Blaid Cymru, mae'n debyg mai nid ar y gwastad syniadaethol y gorwedd ei gyfraniad mwyaf. Yn hytrach, gorwedd yn y ffaith ei fod yn wr, ag iddo benderfyniad a stamina cwbl neilltuol ac unigryw, ac a gysegrodd ei fywyd i'w blaid ac i'w achos.

Mewn oes gynyddol unigolyddol, pan fo cymaint yn cyfrannu er mwyn budd neu bleser personol yn unig, mae ymroddiad ac aberth di-ball Gwynfor Evans yn ein hatgoffa o fodolaeth gwerthoedd gwahanol a gwell. Mewn byd lle mae gwleidyddion wedi colli bri cyhoeddus, a lle ceir sinigiaeth o bob tu yn sigo hygrededd cyfundrefnau gwleidyddol cyfain, saif brwydr di-arbed Gwynfor Evans, a'r statws moesol a fagodd yn ei sgil, fel atgof bod math gwahanol o wleidyddiaeth a gwleidyddion yn bosibl. Mewn gwlad lle mae cenedlaetholdeb bellach yn dderbyniol, a lle mae trwch y boblogaeth bellach yn derbyn - os nad yn dathlu - bodolaeth rhyw lun ar senedd i Gymru, mae bywyd Gwynfor Evans yn ein hatgoffa o'r holl waith a wnaed, a'r holl elyniaeth a ddioddefwyd, yn y degawdau blin

⁵² Ceir y drafodaeth orau hyd yma o statws cyfansoddiadol newydd Cymru yn Richard Rawlings, 'New Model Wales,' *Journal of Law and Society* Cy. 25, Rhif 4 (1998).

hynny pan y cyfrid cenedlaetholwyr a chenedlaetholdeb Cymreig megis clefyd heintus. Ac mae ei waith a'i ymdrech yn parhau. Er ei fod eisoes wedi rhoi oes o wasanaeth i'r mudiad cenedlaethol, ac yntau bellach yn bedwar ugain ac wyth, Gwynfor Evans yw Ysgrifennydd ei gangen leol o Blaid Cymru. Ac yntau'n arwr i filoedd o'i gydwladyr, deil i gyfrannu'n dawel trwy waith mwyaf sylfaenol unrhyw blaid wleidyddol. Dyna fesur y dyn.



Richard Wyn Jones
Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol
Prifysgol Cymru Aberystwyth
Mawrth 2000